# Gwybodaeth Ychwanegol at y Cyfarfod Llawn
# Information Further to Plenary

*Cyhoeddir ymatebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o ymatebion yn y Gymraeg.*
*Responses are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

**Gwybodaeth ychwanegol at y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes a gyhoeddwyd gan Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, ar 22 Rhagfyr 2011**
**Information further to the Business Statement and Announcement issued by Alun Davies, the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, on 22 December 2011**

**At Elin Jones:**

**Fferm Pwllpeiran**

Ar 16 Medi 2011 cafodd Llywodraeth Cymru ei hysbysu gan ADAS Consulting Plc am ei fwriad i alw i rym gymal terfynu ar ei brydles ar Fferm Pwllpeiran yn y Canolbarth.

Mae'r fferm wedi bod ar brydles i ADAS ers 1998 fel cyfleuster ymchwil a chartref i staff sy'n ymwneud â gweithgareddau busnes eraill ADAS. Bu gostyngiad yn swm y cyllid ymchwil y llwyddodd ADAS i'w ddenu i Bwllpeiran yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n bosib bod hyn yn factor ym mhenderfyniad y cwmni i adael y safle.

Ar ôl archwilio'r dewisiadau sydd ar gael, rwyf wedi penderfynu y dylid gwerthu'r ystâd fesul dipyn i roi mwy o gyfle i ffermwyr lleol gaffael y tir. Bydd hyn yn gyfle rhagorol i ffermydd lleol ehangu.

Mae'n annhebygol y bydd yr ystâd yn cael ei gwerthu tan hydref 2012 ar y cynharaf. Mae'r cyfnod ers i ADAS ein hysbysu am ei fwriad i derfynu'r brydles yn amlwg wedi bod yn gyfnod cythryblus iawn i staff ADAS ar y fferm. Ar ôl gwneud y penderfyniad i werthu'r fferm, mae'n bwysig bod y staff yn cael cymaint o wybodaeth a chyngor â phosibl er mwyn iddynt allu penderfynu ar eu dyfodol. Mae swyddogion fy nhîm adrannol a tîm Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru eisoes wedi cwrdd â Rheolwyr ADAS a gweithwyr Fferm Pwllpeiran yn gynharach yr wythnos hon i drafod y sefyllfa i ddod.

**To Elin Jones:**

**Pwllpeiran Farm**

ADAS Consulting plc notified the Welsh Government on 16 September 2011 of its intention to invoke a break clause on its lease of the Pwllpeiran farm in Mid Wales.

The farm has been leased by ADAS since 1998 as a research facility and as a home for ADAS staff undertaking other business activities. The amount of research funding that ADAS has been able to attract to Pwllpeiran in recent years had declined and was possibly a factor in the company's decision to withdraw from the site.

I have examined the options available and decided that the estate should be sold. The sale will be completed in lots which will maximise the opportunity for local farmers to acquire the land. This will be an excellent opportunity for local farm businesses to expand their capacity.

It is unlikely that completion of the sale of the estate will occur until the autumn of 2012 at the earliest. I understand that the period since ADAS notified us of their intention to end the lease will have been very unsettling for the ADAS staff based at the farm. Having reached my decision on the matter, it is important that the staff receive support and as much information and advice as possible so that they are able to determine their futures both in terms of the properties they occupy and their employment. Officials from the Welsh Government's Human Resources team and my own Departmental team met with ADAS management and the farm workers on-site earlier this week to discuss the way forward.